

Roedd Guto'r Glyn (c.1420au - c.1490) yn filwr bwa a saeth yn Rhyfeloedd Ffrainc yn gynnar yn ei yrfa cyn datblygu'n un o feirdd enwocaf Cymru'r bymthegfed ganrif. Ymwelodd â noddwyr drwy Gymru benbaladr – a dros y ffin – ac mae llawer o'i gerddi wedi goroesi. Yn gerddi moliant ac ambell gerdd ddychan, maent yn gampweithiau o'u math a rhoddant lawer o wybodaeth inni am dai a bywyd cymdeithasol yr oes. Gwelir yma ddau o'r tai yr ymwelodd Guto â hwy. Golygir y cerddi yn y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Aberystwyth. Mae'r tai wedi eu cofnodi gan y Comisiwn Brenhinol.

Guto'r Glyn (c.1420s - c.1490) was an archer in the French wars early in life and became one of the best-known poets in fifteenth-century Wales. Guto visited patrons throughout Wales – and further afield – and many of his poems have survived. Guto's poems are masterpieces of praise and satire but they are also full of information about houses and social life. Two houses that Guto visited are illustrated here. The poems are being edited at the Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, Aberystwyth. The houses have been recorded by the Royal Commission.

Chwith: Map yn dangos cartrefi noddwyr Guto.

Left: Map showing the homes of Guto's patrons.




Uchod: Cochwillan, Llanllechid, Gwynedd: Canodd Guto gerddi moliant i Gochwillan a'r perchennog, Wiliam ap Gruffudd. Cyfeiria Guto at y lle tân yn y neuadd fawr, sydd wedi goroesi. Mae'r wyneb blaen fel yr oedd Guto yn ei adnabod wedi goroesi.

Above: Cochwillan, Llanllechid, Gwynedd: Guto praised Cochwillan and its owner, Wiliam ap Gruffudd. Guto refers to the fireplace in the great hall, which still survives. The main front survives as Guto knew it.

Isod: Braslun o'r neuadd ym Moeliwrch gan Harold Hughes (1898).

Below: Sketch of the hall at Moeliwrch by Harold Hughes (1898).



Chwith: Moeliwrch, Llansilin, Powys; yr olygfa o Foeliwrch i gyfeiriad Llansilin. Dywed Guto nad oes ots ganddo ddringo'r bryn er mwyn cyrraedd paradwys cartref ei noddwr.

Left: Moeliwrch, Powys, looking to Llansilin; Moeliwrch was a famously hospitable house. Guto says that he doesn't mind climbing the hill to reach the paradise of his patron's house.



DS2011\_36030\_009 NPRN 36030